## PANEL PENODIADAU ARBENNIG

Cofnodion cyfarfod o'r Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd Stewart Jones, Prestatyn ddydd Mawrth, 18fed Chwefror, 2003 am 2.00 p.m.

### PRESENT

Cynghorwyr J.A. Smith, J. Butterfield a P.A. Dobb a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Personol.

### Presennol hefyd

I. Jeffcott (Riley Consulting), Pennaeth Personnel, Swyddog Personnel (L.M. Jones) a Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol .

### Ymddiheuriadau

Derbynwiyd Ymddiheuriadau gan y Prif Weithredwr.

**1059. PENODI CADEIRYDD**

***PENDERFYNWYD*** *: penodi'r Cynghorydd J.A. Smith i'r Gadair.*

**1060. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *o dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol oherwydd gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig iddynt fel a ddiffinir ym Mharagraff 1, Rhan 1, Rhestr 12A, Deddf Llywodraeth Leol, 1972.*

**1061. RHESTR FER - PENNAETH GWASANAETH ( GWASANAETHAU OEDOLION)**

Cyflwynodd Mr. I Jeffcott asesiad o'r ymgeiswyr a luniwyd yn dilyn trafodaethau hefo pob ymgeisydd. Gan gyfeirio at ddogfennau a gylchredwyd yn flaenorol at Aelodau rhoddwyd crynodeb o brif rinweddau pob ymgeisydd. Atebodd Jeffcott gwestiynau gan yr Aelodau .

Bu Aelodau'n ystyried rhinweddau pob ymgeisydd a chytunwyd i wahodd 5 ymgeisydd i wneud asesiadau personol pellach.

Cytunodd Aelodau hefyd yn dilyn asesiadau y dylai'r Panel ail gyfarfod i ddewis ymgeiswyr am gyfweliad ffurfiol .

***PENDERFYNWYD*** *- gwahodd y 5 ymgeisydd i gael asesiadau personol ar 25ain Chwefror, 2003, ac yna cael cyfarfod pellach o'r Panel ar y diwrnod hwnnw i ddewis ymgeiswyr am gyfweliad ffurfiol.*

**1062. DYDDIAD CYFWELD**

***PENDERFYNWYD -*** *cynnal cyfweliadau terfynol ddydd Mawrth 4ydd Mawrth, 2003.*

Daeth y cyfarfod i ben am 2.45 p.m.

**********